

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Mawrth 10fed 2015 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Jean Roberts (Cadeiryddes), Euros Puw, Gwynfryn Williams, Gwynedd Jones, Gwilym Davies, Rhys Richards, Geraint Jones, Arwel Davies a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards .

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Datgan Buddiant.

Nodwyd buddiant y cynghorwyr wrth y ceisiadau ariannol perthnasol.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Ysgol Y Parc.

Cafwyd adroddiad gan y clerc o'r sefyllfa bresennol. Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau ynglŷn â'r canllawiau i ymwneud ag asbestos ac ymgynghori gyda'r cynghorwyr a gwneud y newidiadau perthnasol i'r les cyn ei arwyddo.

Llywodraeth Cymru – Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.

Trafodwyd cynnwys y Papur a'r hyn a gyflwynwyd gan Dyfed Edwards, Arweinydd Cyngor Gwynedd yn y cyfarfod yn yr Henblas. Cytunodd y clerc gwblhau'r ffurflen ymateb ar ran y Cyngor a chytunwyd ar y sylwadau i'w gynnwys.

Ymateb i'r cwynion a anfonwyd i Cyngor Gwynedd.

Arwyddion blaenoriaeth ar bont Ffrydan-uchaf ger Fedw Arian.

Roedd y clerc wedi ailgysylltu a'r adran briffyrdd ac roedd y swyddog wedi cytuno cyfarfod gyda'r cynghorwyr pan fyddai yn yr ardal nesaf.

Safle biniau ger Pant Neuadd, Parc.

Roedd y clerc wedi pasio'r cwynion diweddaraf ymlaen i'r adran ailgylchu a derbyniwyd sylwadau yn gofyn i'r trigolion wahanu'r eitemau yn y bocsys glas i sicrhau eu bod yn cael ei gwagu. Yn anffodus derbyniwyd cwynion pellach a sylwadau nad oedd y lori wedi casglu'r eitemau ailgylchu ers rhai wythnosau. Gofynnwyd i'r clerc ailgysylltu a'r swyddog perthnasol gyda'r cwynion diweddaraf.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn / Cwmni Pum Plwy Penllyn

i) Derbyniwyd braslun o'r hyn a drafodwyd yn eu cyfarfod diwethaf.

b) Llywodraeth Cymru

i) Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru - cafwyd adroddiad gan y clerc o'r hyn a gyflwynwyd yn y Cynllun Draft

c) Amrywiol

i) Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd – Copïau o'r Newyddlen Gaeaf 2014/15.

Cynllunio.

Derbyniwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei ganiatáu:-

NP5/72/53F – Codi adeilad amaethyddol, gweithdy a storfa. Rhyd Lechog, Frongoch.

Materion Ariannol.

Gwefan y Cyngor

Cafwyd cadarnhad bod y grant tuag at wefan newydd y Cyngor Cymuned wedi cael ei dalu i mewn i'r banc.

Cais ariannol Cwmni Pum Plwy Penllyn.

Derbyniwyd llythyr yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at ddatblygu gwasanaeth cynghori gofal a lles Canolfan yr Henblas. Trafodwyd y cais a chytunwyd nad oedd y Cyngor Cymuned mewn sefyllfa i gyfrannu'n ymhellach i'r Ganolfan.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog y clerics (Ionawr i ddiwedd Mawrth)

CTHEM (TWE)

Neuadd Maesywaen (Llogi)

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cyfrannu i'r canlynol :-

Eisteddfod Talybont,

Cylch Meithrin/ Ti a Fi Maesywaen

Neuadd Y Parc (Euros Puw, Arwel Davies a Jean Roberts yn datgan diddordeb)

Ysgol Bro Tryweryn

Sioe Ardal Maesywaen

Urdd Gobaith Cymru Cylch Penllyn

CFFI Meirionnydd

Ambiwlans Awyr Cymru

Hosbis Tŷ'r Eos

Cantref (Gwynedd Jones yn datgan diddordeb)

CFFI Maesywaen

Ysgol y Berwyn

Sefydliad Aren Cymru

Tŷ Gobaith

Materion Lleol.

Gofynnwyd i'r clerics basio'r cwynion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

- i) Derbyniwyd cwynion am gyflwr y ffyrdd ger pont Tŷ Nant, Capel Celyn a ger Hafod y Garreg, Llidiardau.
- ii) Roedd ffos wedi tagu rhwng y ddau rid gwartheg ar y Nodol, Arenig ac angen sylw.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos
Fawrth, Mai 12fed yn Neuadd
Maesywaen am 8.00y.h.**